



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG 45810

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

Ymgynghoriad ar y Canllawiau a'r Rheoliadau Statudol y bydd eu hangen i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd

Dyddiad cyhoeddi: 20 Medi 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Rhagfyr 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd /
This document is also available in Welsh

Trosolwg

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn gosod dyletswydd gonestrwydd ar gyrff y GIG yng Nghymru. Mae'r Ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol y bydd eu hangen i weithredu'r ddyletswydd honno.

Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 13 Rhagfyr 2022
Gallwch ymateb ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post.

Ar-lein

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru.

E-bost

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i IGCAnsawddacYmgysylltu@llyw.cymru

Post

Yr Is-adran Gofal Iechyd Poblogaethau
Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Gofal Iechyd Poblogaethau
Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: IGCAnsawddacYmgysylltu@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

This document is also available in English

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU¹)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith. Ymgwymerir â gwaith o'r fath o dan contract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd. O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data. Os hoffech wybod rhagor am am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

¹ Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Deddf Diogelu Data 2018 <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113 Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Tabl Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	6
Cyflwyniad	7
Pennod 1 Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd.....	10
Pennod 2 Rheoliadau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd.....	19
Pennod 3 Diwygiadau Pellach i'r Rheoliadau Gweithio i Wella.....	28
Pennod 4 Diwygiadau a Diweddariadau i'r Canllawiau Gweithio i Wella	29
Pennod 5 Aseidiadau Effaith Integredig	30
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	32

Rhagair gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhaid i'r GIG yng Nghymru fod yn rhywle lle mae diwylliant dysgu agored o beidio â bwrw bai yn ffynnu a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u parchu, beth bynnag fo'u cefndir.

Yn anochel, pan fydd gwasanaethau cymhleth yn cael eu darparu, bydd rhai pobl yn dioddef niwed. Pan fydd hynny'n digwydd, bydd ymateb cyrff y GIG i'r sefyllfaoedd hyn yn bwysig iawn, a gall wneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau pobl ac i'w perthynas barhaus â'u darparwr gofal. Mae hyn yn hollbwysig mewn lleoliadau gofal iechyd lle y bydd gan bobl yn aml berthynas hirsefydlog.

Yn gyffredinol, mae pobl am gael gwybod y gwir am yr hyn sydd wedi digwydd a chael sicrwydd bod gwersi wedi'u dysgu, lle bo hynny'n berthnasol. Mae angen cefnogi staff drwy'r broses hefyd.

Mae'r darpariaethau Dyletswydd Gonestrwydd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020² a Chanllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd 2023³ a Rheoliadau Statudol y Weithdrefn Gonestrwydd (Cymru) 2023⁴, a fydd yn sail i'r ddyletswydd, wedi cael eu cynllunio i gefnogi'r ethos hwn.

Bydd y broses gonestrwydd yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i ddechrau yng Nghymru fel rhan o'r broses Gweithio i Wella⁵ i wreiddio ymddygiad gonest drwy wneud bod yn agored ac yn dryloyw â phobl ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth yn rhan arferol o ddiwylliant pob un o'r cyrff hyn yng Nghymru. Mae hefyd yn ychwanegu at y ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol unigol sydd eisoes gan glinigwyr fel rhan o'u rheoliadau proffesiynol.

Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r Grŵp Llywio Ansawdd a Gonestrwydd ac i bawb a fu'n bresennol mewn sesiynau gweithdy a digwyddiadau ymgysylltu rhithwir i drafod y polisi sy'n datblygu ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Rwy'n gwybod bod llawer o staff y GIG (mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd), darparwyr iechyd annibynnol, cynrychiolwyr o'r trydydd sector, cyrff proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd wedi rhoi o'u hamser yn hael i'n cefnogi yn y gwaith pwysig hwn.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

² Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020 - Nodiadau Esboniadol \(legislation.gov.uk\)](#)

³ O'r pwynt hwn ymlaen, cyfeirir atynt fel 'y Canllawiau'

⁴ O'r pwynt hwn ymlaen, cyfeirir atynt fel 'y Rheoliadau'

⁵ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 <https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/704/contents/made/welsh>

Cyflwyniad

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (“y Ddeddf”) ei phasio ym mis Mawrth 2020 a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2020. Mae’n cynnwys pedair prif ran.

Mae Rhan 3 yn gosod Dyletswydd Gonestrwydd statudol ar gyffwrdd y GIG yng Nghymru. Bwriedir dod â’r ddyletswydd i rym o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Diben yr Ymgynghoriad hwn yw gwahodd barn ar y Canllawiau a’r Rheoliadau sy’n angenrheidiol er mwyn gweithredu’r Ddyletswydd Gonestrwydd, sef:

- Canllawiau’r Ddyletswydd Gonestrwydd, yn Nogfen Amgaaedig 1;
- Rheoliadau’r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 (“Rheoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd”), yn Nogfen Amgaaedig 2.

Mae’r Ymgynghoriad hefyd yn gwahodd barn ar y newidiadau y mae angen eu gwneud drwy Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) (Diwygio) 2023, yn Nogfen Amgaaedig 3. Mae hefyd yn gwahodd barn ar newidiadau i’w gwneud i’r Canllawiau Gweithio i Wella yn Nogfen Amgaaedig 4 o ganlyniad i gyflwyno’r Ddyletswydd Gonestrwydd. Newidiadau bychain yw’r rhain yn bennaf, ac o’r herwydd nid oes cwestiynau penodol ar ddiwygiadau penodol, fodd bynnag byddem yn croesawu ymatebion ar y diwygiadau hyn yn y cwestiynau cyffredinol ar y newidiadau i Gweithio i Wella. Yr eithriad yn y diwygiadau hyn yw cynnwys Awdurdodau Iechyd Statudol yn y Rheoliadau a’r Canllawiau Gweithio i Wella. Nid ydym yn ystyried y rhain yn newidiadau bach, ond eto, byddem yn croesawu ymatebion yn y cwestiynau cyffredinol ar Gweithio i Wella.

Trosolwg o’r Ddeddf – Fframwaith deddfwriaethol

Mae’r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch nifer o gynigion cysylltiedig sy’n ymwneud ag ansawdd ac ymgysylltu â’r cyhoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda’i gilydd, bwriedir i’r darpariaethau arwain at fudd cadarnhaol cronol i boblogaeth Cymru a rhoi amodau ar waith sy’n ffafriol i wella iechyd a llesiant:

- a. Mae Rhan 1 o’r Ddeddf yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau’r Ddeddf.
- b. Mae Rhan 2 yn gosod dyletswydd sy’n ymwneud â gwella ansawdd gwasanaethau iechyd ar Weinidogion Cymru a Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru.
- c. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ac ynghylch Dyletswydd Gonestrwydd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd.
- d. Mae Rhan 4 yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei swyddogaethau, sef cynrychioli buddiannau’r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau eirioli mewn perthynas â chwynion. Mae hefyd yn diddymu Cyngorau Iechyd Cymuned a’r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned.

- e. Mae Rhan 5 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru benodi is-gadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG.

Mae'r Ymgynghoriad hwn yn gofyn am adborth ar bolisi sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn unig gan y bydd y Ddyletswydd Ansawdd a sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn destun ymgynghoriadau cyhoeddus ar wahân.

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni drwy gyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Mae gan bob darparwr iechyd a gofal cymdeithasol nod cyffredin i ddarparu gofal o ansawdd da. Ceir tystiolaeth bod cysylltiad rhwng bod yn fwy agored, tryloyw a gonest a darparu iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell⁶ ⁷. Mae sefydliadau sydd â diwyllianau agored a thryloyw yn fwy tebygol o dreulio amser yn dysgu o ddigwyddiadau, yn hytrach na cheisio cuddio problemau neu fod yn rhy amddiffynnol yn eu cylch, ac maent yn fwy tebygol o roi prosesau a systemau ar waith i wrando ar Ddefnyddwyr Gwasanaethau a staff a'u cefnogi pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Ymhlith y rhwystrau hysbys sy'n atal pobl rhag datgelu mae ofn, diwylliant o gyfrinachedd a/neu fwrw bai, diffyg hyder mewn sgiliau cyfathrebu, ofn peri gofid i Ddefnyddwyr Gwasanaethau ac amheuaeth na fydd datgelu yn llwyddo i wella diwylliant.

Mae gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, megis meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, eisoes ddyletswydd gonestrwydd *unigol*. Mae eu cyrff rheoleiddio (fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal) eisoes yn mynnu eu bod yn agored ac yn onest â chleifion lle y bu methiannau o ran gofalu am gleifion.

Bwriad y Ddyletswydd Gonestrwydd, a'r Canllawiau a'r Rheoliadau sy'n sail iddi, yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant agored ymhellach ym mhob rhan o GIG Cymru.

Y bwriad cyffredinol yw y bydd cyfathrebu agored a gonest ynghylch unrhyw achos lle y bydd Defnyddiwr Gwasanaeth yn dioddef mwy nag ychydig o niwed, ni waeth ble y caiff y gofal ei ddarparu yng Nghymru.

Ym maes gofal cymdeithasol, mae Dyletswydd Gonestrwydd eisoes yn bodoli ar gyfer darparwyr ac unigolion cyfrifol gwasanaethau a reoleiddir.

Ar gyfer darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, y bwriad yw gosod Dyletswydd Gonestrwydd arnynt gan ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau o dan

⁶ Sefydliad Iechyd y Byd, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a Banc y Byd. Delivering quality health services: a global imperative for universal health coverage. [Rhyngwryd]. Geneva; 2018. Ar gael o:

<https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/272465/9789241513906-eng.pdf?ua=1>

⁷ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gwir Anrhydeddus Jeremy Hunt AS. Good care costs less [Rhyngwryd]. GOV.UK 2014 [dyfynnwyd 1 Ebrill 2019]. Ar gael o:

<https://www.gov.uk/government/speeches/good-care-costs-less>

Ddeddf Safonau Gofal 2000⁸. Yn wreiddiol, y bwriad oedd dwyn y ddyletswydd honno i rym ar yr un pryd â'r ddyletswydd ar gyrff y GIG. Fodd bynnag, rydym bellach yn dilyn dull fesul cam, gyda'r nod o ddwyn Dyletswydd Gonestrwydd i rym ar gyfer darparwyr annibynnol yn ystod neu o gwmpas mis Ebrill 2024.

Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Ceir dolen at destun llawn y Ddeddf isod:

[Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020, \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/contents)

Nid yw'r darpariaethau yn y Ddeddf yn destun ymgynghoriad – maent wedi'u pennu eisoes gan eu bod wedi cael eu hystyried gan y Senedd fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol.

Prif ddiben darpariaethau gonestrwydd y Ddeddf yw helpu i sicrhau dull gweithredu, drwy'r system gyfan, o fod yn agored ac yn onest pan fydd person yn dioddef niwed.

Credwn y bydd gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yn llwyddiannus ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru yn annog penderfyniadau gwell ac, yn y pen draw, yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae eich barn yn rhan bwysig o'r broses weithredu.

⁸ Deddf Safonau Gofal 2000 <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/contents>

Pennod 1

Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd

Nod y Canllawiau Statudol

Nod y canllawiau yw darparu fframwaith arferion gorau er mwyn cynorthwyo darparwyr gwasanaethau'r GIG i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Maent yn rhoi sylw i'r materion gweithredu allweddol a allai godi o ganlyniad i gyflwyno'r ddyletswydd newydd.

Y bwriad yw rhoi cymorth ymarferol i gyrff y GIG a fydd yn rhoi'r ddyletswydd ar waith, gan roi arweiniad ar yr hyn y mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ei olygu, ac i bwy a sut mae'n berthnasol. Cawsant eu datblygu gan ystyried yr hyn a ddysgwyd o rannau eraill o'r DU sydd eisoes wedi gweithredu Dyletswydd Gonestrwydd. Yn benodol, maent yn cynnwys llyfrgell o astudiaethau achos yn Atodiad H, sy'n cynnig enghreifftiau ymarferol o senarios mewn gwahanol feysydd ymarfer clinigol sy'n dangos digwyddiadau a fydd yn sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd yn ogystal â'r rhai na fyddant yn gwneud hynny.

Er eu bod wedi'u hanelu at glinigwyr, a chyrrff y GIG, bydd y Canllawiau hefyd yn adnodd defnyddiol i sefydliadau'r trydydd sector a all fod yn awyddus i ddysgu mwy am y ddyletswydd, ac i aelodau o'r cyhoedd. Fodd bynnag, y bwriad yw cyhoeddi taflen (gan gynnwys taflen hawdd ei deall), yn ogystal â fideo byr, a fydd yn rhoi gwybod i aelodau o'r cyhoedd am y ddyletswydd newydd a'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw.

Mae Dogfen Amgaeedig 1 yn cynnwys y ddogfen ganllawiau statudol ar y ddyletswydd gonestrwydd.

Isod ceir nifer o gwestiynau ymgynghori sy'n ymwneud yn benodol â'r Canllawiau.

Pryd y caiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno

Mae'r Ddeddf yn darparu y bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol pan gaiff dau amod eu bodloni:

- i. yn gyntaf, os bydd Defnyddiwr Gwasanaeth y mae un o gyrff y GIG yn darparu neu wedi darparu gofal iechyd iddo wedi dioddef canlyniad andwyol; **ac**
- ii. yn ail, os oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r Defnyddiwr Gwasanaeth ddioddef y canlyniad hwnnw.

Caiff Defnyddiwr Gwasanaeth ei drin fel pe bai wedi dioddef canlyniad andwyol os bydd y Defnyddiwr Gwasanaeth yn dioddef mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os bydd yr amgylchiadau'n golygu y gallai ddioddef niwed o'r fath.

Hefyd, mae'n berthnasol nodi y caiff y ddyletswydd ei sbarduno os oedd darparu'r gofal iechyd yn ffactor, neu y gallai fod wedi bod yn ffactor, a achosodd i'r Defnyddiwr Gwasanaeth ddioddef y canlyniad. Rhaid i'r canlyniad felly ymwneud â'r gofal a gafodd ei ddarparu gan y corff GIG yn hytrach na'i fod yn cael ei briodoli'n llwyr i salwch neu gyflwr isorweddol yr unigolyn. Nid oes angen bod yn sicr mai'r

gofal iechyd a achosodd y niwed. Mae'r posibilrwydd y gallai'r gofal iechyd fod wedi bod yn ffactor yn ddigon.

Mae Rhan 4 o'r Canllawiau yn rhoi arweiniad ynghylch pryd y bydd y weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol.

Cwestiwn 1

A yw'r Canllawiau ynghylch pryd y bydd y Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol yn glir?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Mae Atodiad A y Canllawiau yn nodi, ar ffurf siart lif, broses ar gyfer penderfynu a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno.

Cwestiwn 2

A yw'r siart lif yn Atodiad A yn adnodd defnyddiol ar gyfer penderfynu a yw'r ddyletswydd wedi cael ei sbarduno?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Fel y nodir uchod, un o'r amodau y bydd angen eu bodloni cyn i'r ddyletswydd fod yn berthnasol yw bod rhaid i'r Defnyddiwr Gwasanaeth ddioddef canlyniad andwyol. Bydd Defnyddiwr Gwasanaeth yn dioddef canlyniad andwyol os bydd yn dioddef mwy nag ychydig o niwed annisgwyl neu anfwriadol neu os bydd yr amgylchiadau'n golygu **y gallai ddioddef** niwed o'r fath.

Er mwyn i'r ddyletswydd gael ei deall a'i gweithredu'n iawn, mae'n bwysig bod dealltwriaeth glir o ystyr "y gallai ddioddef".

Rydym wedi ceisio rhoi rhywfaint o arweiniad ymarferol ynghlŷn â hyn yn y Canllawiau ar dudalennau 8-9 ac rydym wedi cynnwys rhai enghreifftiau o achosion lle y gallai niwed ddigwydd yn y dyfodol yn y llyfrgell o astudiaethau achos yn Atodiad H (astudiaethau achos 9, 10 ac 11).

Cwestiwn 3

A yw'r canllawiau a'r astudiaethau achos yn ddefnyddiol wrth benderfynu beth a olygir wrth niwed "y gallai" rhywun ei ddiodef?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Mae'r Ddeddf yn datgan bod angen mwy nag ychydig o niwed i sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd. Yn dilyn gweithdai i randdeiliaid a sesiynau ffocws ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaethau/cynrychiolwyr cleifion a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2021 a mis Ionawr 2022, y cynnig yw pennu mai ystyr mwy nag ychydig o niwed yw "niwed cymedrol, niwed difrifol a marwolaeth". Mae hyn yn unol â'r trothwyon a bennwyd ar gyfer dyletswyddau gonestrwydd Lloegr a'r Alban⁹ ac yng Nghymru o dan y trefniadau Gweithio i Wella.

Tynnir eich sylw at ran 6 tudalen 9 o'r ddogfen ganllawiau ac Atodiad B y Canllawiau, sef y fframwaith lefelau niwed sy'n egluro ystyr niwed cymedrol, niwed difrifol a marwolaeth. Hefyd, mae Atodiad H y Canllawiau yn cynnwys astudiaethau achos amrywiol sy'n dangos digwyddiadau lle y byddai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei rhoi ar waith a lle na fyddai'n cael ei rhoi ar waith.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno bod pennu'r trothwy ar gyfer sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd ar lefel niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi gwybod i Ddefnyddwyr Gwasanaethau a pheidio â rhoi gormod o faich ar ddarparwyr y GIG?

Ydw

Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).

Cwestiwn 5

⁹ Os bydd y dyletswyddau gonestrwydd statudol yn berthnasol yn achos niwed sy'n gymedrol ac yn fwy. Dyletswydd Gonestrwydd (Lloegr) <https://www.gov.uk/government/publications/nhs-screening-programmes-duty-of-candour/duty-of-candour> Dyletswydd Gonestrwydd (yr Alban) <https://www.gov.scot/policies/healthcare-standards/duty-of-candour/>

A yw'r fframwaith niwed yn Atodiad B yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y math o niwed a fydd yn perthyn i gategoriâu niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Cwestiwn 6

Ydych chi'n credu bod yr enghreifftiau o astudiaethau achos a nodir yn Atodiad H yn ddigon cynhwysfawr i egluro pryd y byddai'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei defnyddio?

Ydw

Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).

Y berthynas â dyletswyddau proffesiynol

Mae'r Canllawiau hefyd yn esbonio sut mae'r ddyletswydd gonestrwydd o dan y Ddeddf yn cydberthyn i'r dyletswyddau gonestrwydd proffesiynol y mae'n rhaid i lawer o glinigwyr (gan gynnwys meddygon teulu, meddygon ysbyty, deintyddion, nyrsys, fferyllwyr, ymarferwyr offthalmig, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ac ati) eu dilyn (gweler Rhan 2 o'r Canllawiau, tudalen 6 a 7). Nod y ddyletswydd statudol yw ategu'r ddyletswydd broffesiynol hon sydd eisoes yn bodoli.

Cwestiwn 7

A yw'r berthynas rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol y mae llawer o weithwyr iechyd proffesiynol yn gorfod ei dilyn a'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol yn glir?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Mae'r Canllawiau yn Nogfen Amgaaedig 1 yn rhoi esboniad pellach o'r ffordd y bwriedir i'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd weithio (ar dudalennau 10-20).

Hefyd, dangosodd adborth o'r digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch gweithredu'r ddyletswydd y byddai siartiau llif sy'n nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan gaiff y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno yn ddefnyddiol. Mae siartiau llif sy'n esbonio'r broses i'w gweld yn Atodiadau C ac F1.

Cwestiwn 8

A yw'r canllawiau ar y ffordd y bydd y weithdrefn dyletswydd gonestrwydd yn gweithio, sydd i'w gweld ar dudalen 11 o'r canllawiau, yn glir?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Cwestiwn 9

A yw'r siartiau llif yn Atodiadau C ac F1 yn ddefnyddiol er mwyn helpu i ddeall sut y bydd y weithdrefn yn gweithio?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Gwasanaethau a Gomisiynir

Mae Adran 10 o'r canllawiau yn egluro pa sefydliad fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd mewn sefyllfaoedd pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan un corff ar ran corff arall.

Yn gryno:

- (i) corff GIG sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd mewn cysylltiad â'r holl ofal iechyd mae'n ei ddarparu. Felly, er enghraifft, pan fydd bwrdd iechyd lleol yn ymrwmo i drefniadau gyda darparwr gofal sylfaenol (megis meddyg teulu) i ddarparu gwasanaethau'r GIG, y darparwr gofal sylfaenol sy'n rhwym wrth y ddyletswydd. Yn yr un modd, os bydd bwrdd iechyd lleol yn ymrwmo i drefniadau gydag Ymddiriedolaeth yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau, yr Ymddiriedolaeth sy'n rhwym wrth y ddyletswydd;
- (ii) os bydd corff GIG yn ymrwmo i drefniant i ddarparu gwasanaethau gyda rhywun ar wahân gorff GIG arall, y corff GIG sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd. Felly, er enghraifft, pe bai bwrdd iechyd lleol yn

ymrwymo i drefniant gyda darparwr annibynnol i ddarparu gwasanaethau, byddai'r ddyletswydd yn aros gyda'r bwrdd iechyd lleol.

Dim ond os yw'r gofal iechyd yn cael ei ddarparu yng Nghymru fel rhan o wasanaethau'r GIG y mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol. Er enghraifft, os bydd bwrdd iechyd lleol yn ymrwymo i drefniadau gyda darparwr yn Lloegr i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, Dyletswydd Gonestrwydd Lloegr o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008¹⁰ fydd yn berthnasol mewn cysylltiad â'r gofal hwnnw.

Cwestiwn 10

A yw'r canllawiau'n glir ynghylch sut mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol i wasanaethau a gomisiynir?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Cwestiwn 11

Mae'r siart lif gweithdrefn yn Atodiad A1 yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan fydd gwasanaethau wedi'u comisiynu. A yw'r broses yn glir?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Niwed sy'n digwydd i Ddefnyddwyr Gwasanaethau wrth aros am brofion diagnostig neu ofal gan y GIG

Ers pandemig byd-eang SARS-CoV-2, mae pwysau parhaus wedi bod ar adnoddau yn y GIG ac, o ganlyniad, mae llawer mwy o gleifion yn aros am brofion diagnostig, triniaethau a gofal ar restrau aros y GIG.

Pan fo defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef niwed tra mae restr aros, gallai hyn **o bosibl** sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd. Er mwyn i Ddefnyddiwr Gwasanaeth fod ar restr aros, fel arfer rhaid cael atgyfeiriad sy'n seiliedig ar asesiad a phenderfyniad clinigol – felly, yn ddieithriad bron, bydd wedi cael gofal iechyd er mwyn cael ei ychwanegu at y rhestr. Yn ogystal, pan geir atgyfeiriad mae'r defnyddiwr gwasanaeth fel arfer yn cael ei ystyried yn un sydd o dan ofal ymgynghorydd, ac yn aml mae'r rhestr aros yn cael ei monitro'n weithredol, sy'n cynnwys elfen o fewnbwn a dyfarnu clinigol sydd hefyd

¹⁰ Y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2008), cyrchwyd yn <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/14/contents>

yn gyfystyr â darparu gofal iechyd. Os felly, mae person yn cael gofal iechyd yn dilyn yr atgyfeiriad.

Fodd bynnag, yr elfennau allweddol eraill y mae'n rhaid eu bodloni cyn i'r ddyletswydd gael ei sbarduno yw bod y defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael neu sydd wedi cael gofal iechyd gan y corff wedi dioddef "canlyniad andwyol", ac y gallai'r darpariaeth gofal iechyd fod wedi bod yn ffactor a arweiniodd at y defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef y canlyniad hwnnw. Bydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei drin fel un sydd wedi dioddef canlyniad andwyol os yw wedi profi unrhyw niwed "annisgwyl neu anfwriadol" sy'n fwy nag ychydig o niwed neu os yw'r amgylchiadau'n golygu y gallai ddioddef niwed o'r fath. Mae rhestrau aros ar draws pob maes yn cael eu rheoli, ac un o'r agweddau allweddol ar reoli rhestrau aros yw eu rheoli i leihau niwed i'r rhai sy'n aros am driniaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir, oherwydd galw cynyddol am wasanaethau ac adnoddau nad ydynt yn ddihysbydd (a wnaed yn waeth gan yr ôl-groniad a achoswyd gan y pandemig) mae pobl yn gorfod aros am driniaeth ac, mewn llawer o achosion, bydd eu cyflwr yn dirywio wrth iddynt aros am y driniaeth honno. Nid yw'r dirywiad hwn yn annisgwyl at ddibenion sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd.

Er enghraifft: mae Defnyddiwr Gwasanaeth ar restr aros i gael llawdriniaeth ddargyfeiriol ar y galon, ac mae'n cael trawiad ar y galon yn y cyfamser. Nid yw hyn yn annisgwyl ac mae'n risg a gafodd ei hesbonio i'r claf wrth egluro pam mae angen llawdriniaeth arno ac felly ni fyddai'r ddyletswydd yn berthnasol.

Wedi dweud hynny, os oedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi'i golli oddi ar y rhestr neu wedi cael ei flaenoriaethu'n anghywir, a hynny felly wedi arwain at niwed, byddai'r Ddyletswydd yn berthnasol gan y byddai'r niwed sy'n deillio o hynny yn annisgwyl. Mae'n bosibl hefyd y byddai achlysuron eraill lle bo defnyddiwr gwasanaeth yn dioddef niwed sy'n fwy nag ychydig o niwed wrth aros am driniaeth ac yr ystyrir bod y niwed sy'n cael ei ddioddef yn "annisgwyl neu anfwriadol" – hynny yw mae'n fwy na'r hyn y gellid ei ddisgwyl neu ei fwriadu yn rhesymol o ystyried ffactorau megis cyflwr y person, nifer y bobl sy'n aros am driniaeth a'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r driniaeth honno.

Bydd y sefyllfa ychydig yn fwy cymhleth os bydd person yn cael ei asesu gan gorff A ac yna'n cael ei atgyfeirio at gorff B, sy'n ei roi ar restr aros. Bydd hyn yn aml yn wir yn achos atgyfeiriadau rhwng meddyg teulu a gofal ysbyty.

Mae'r achos hwn yn llai clir, oherwydd os bydd y person wedi cael gofal iechyd fel rhan o'i asesiad, bydd y gofal iechyd wedi cael ei ddarparu gan gorff A, sef y meddyg teulu, felly ni fydd wedi cael gofal iechyd "gan y corff" sy'n gyfrifol am yr oedi. Mae'r cwestiwn ynghylch a yw'r meini prawf yn cael eu bodloni yn dibynnu pa gamau gweithredu y mae corff B yn eu cymryd pan fydd yn cael yr atgyfeiriad ac a oes unrhyw gamau a gymerwyd a allai fod yn gyfystyr â darparu gofal iechyd gan gorff B. Anogir yn gryf fod y cyrff GIG o dan sylw yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i gyflawni dyletswydd y weithdrefn gonestrwydd ac yn cymryd rhan lawn yn y broses.

Cwestiwn 12

A yw'r canllawiau'n glir ynghylch pryd y bydd niwed i Ddefnyddwyr Gwasanaethau sy'n digwydd wrth aros am brofion diagnostig a thriniaeth yn sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Cwestiwn 13

Yn eich barn chi, pa eglurhad pellach fyddai'n ddefnyddiol i sefydliadau'r GIG a defnyddwyr gwasanaethau o ran niwed a geir wrth aros am brofion diagnostig a thriniaeth?

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach

Adroddiadau blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno adroddiadau blynyddol ynghylch a yw'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod i rym mewn perthynas â'r corff yn ystod y flwyddyn adrodd (pob blwyddyn ariannol). Mae canllawiau ar y gofynion adrodd i'w gweld yn rhan 11 o'r Canllawiau, gyda siart lif esboniadol yn Atodiad G.

Cwestiwn 14

A yw'r gofyniad i Fyrddau lechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau lechyd Arbennig gyhoeddi eu hadroddiadau Gonestrwydd yn glir?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Cwestiwn 15

O ran y siart lif ar gyfer adroddiadau a nodir yn Atodiad G, a yw'r broses yn glir?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid cyhoeddi'r adroddiadau gonestrwydd blynyddol cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol anfon eu hadroddiadau gonestrwydd i'r Bwrdd lechyd y maent wedi ymrwymo i drefniadau gydag ef ar gyfer darparu gwasanaethau'r GIG. Rhaid i Fyrddau lechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau lechyd Arbennig gyhoeddi'r adroddiad gonestrwydd ar wasanaethau y maent yn eu darparu.

Er mwyn rhoi amser i Fyrddau lechyd Lleol Iunio'r crynodeb i'w gynnwys yn eu hadroddiad, rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol gyflwyno eu hadroddiadau i'w Bwrdd lechyd Lleol erbyn **30 Medi** fan hwyraf bob blwyddyn. Mae hyn wedyn yn galluogi Byrddau lechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau lechyd Arbennig i gynnwys eu hadroddiadau gonestrwydd yn yr adroddiad blynyddol ar gyfrifon a pherfformiad a gaiff ei gwblhau a'i gyhoeddi erbyn **31 Hydref** fan hwyraf bob blwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r chwe mis o amser ymchwilio ar gyfer digwyddiadau yn unol â Gweithio i Wella. Dylid ei gyhoeddi fel adran ar wahân yn yr Adroddiad Gweithio i Wella.

Cwestiwn 16

A yw'r dyddiadau adrodd blynyddol, sef 30 Medi ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol a 31 Hydref ar gyfer Byrddau lechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau lechyd Arbennig, yn rhesymol?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Cwestiwn 17

A yw'n rhesymol awgrymu y dylai'r adroddiad ar y Ddyletswydd Gonestrwydd gyd-fynd â'r adroddiad blynyddol ar gyfer Gweithio i Wella sydd eisoes ar waith er mwyn osgoi dyblygu?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Pennod 2

Rheoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd

Mae'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n nodi'r weithdrefn y bydd yn rhaid i Gyrff y GIG ei dilyn pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol. Caiff Rheoliadau Gweithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023, sydd wedi'u hatodi yn Nogfen Amgaeedig 2, eu hategu gan Ran 7 o'r Canllawiau sy'n esbonio'r weithdrefn gonestrwydd.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG roi gwybod i'r Defnyddiwr Gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran pan ddaw'n ymwybodol gyntaf fod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno;

- (i) bod y ddyletswydd wedi dod i rym,
- (ii) pwy yw'r 'unigolyn enwebedig' a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt mewn perthynas â'r weithdrefn gonestrwydd;
- (iii) am unrhyw ymholiadau pellach a wnaed gan y corff mewn perthynas â'r amgylchiadau a achosodd i'r ddyletswydd ddod i rym.

Mae canllawiau ar ystyr "dod yn ymwybodol gyntaf" i'w gweld ar dudalennau 10 i 11 o'r Canllawiau yn Nogfen Amgaeedig 1. Dyma'r adeg y daw'n hysbys bod niwed (cymedrol, dirifol neu farwolaeth) wedi digwydd i Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn ystod ei ofal gan y GIG, neu y gall hynny ddigwydd, a'i bod yn debygol mai'r gofal sydd wedi'i achosi.

Cwestiwn 18

A yw'r esboniad o 'dod yn ymwybodol gyntaf' yn y canllawiau yn ddigon clir i alluogi sefydliadau'r GIG i wybod pryd y mae'n rhaid i'r weithdrefn Gonestrwydd ddechrau?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Gellir rhoi gwybod i rywun sy'n gweithredu ar ran y Defnyddiwr Gwasanaeth, os yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth:

- wedi marw;
- yn 16 oed neu'n hŷn ac nad yw'n meddu ar y galluedd (o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) mewn perthynas â'r mater;
- o dan 16 oed ac nad yw'n gymwys i wneud penderfyniad mewn perthynas â'i ofal neu ei driniaeth; neu

- yn Ddefnyddiwr Gwasanaeth â galluedd sydd wedi enwebu rhywun arall i weithredu ar ei ran.

Cwestiwn 19

Dan amgylchiadau lle na ellir rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth, neu lle nad yw'n fodlon i neb roi gwybod iddo, fod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno, a yw'r darpariaethau sy'n nodi pwy a all weithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth yn ddigon cynhwysfawr?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Mae Rheoliad 7(3) yn cydnabod y bydd sefyllfaoedd lle na fydd corff GIG, er y bydd wedi cymryd camau rhesymol, yn gallu cysylltu â'r Defnyddiwr Gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran i roi gwybod iddo bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno. Mae hefyd yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y gall Defnyddiwr Gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran benderfynu nad yw'n dymuno cyfathrebu â'r ynglŷn â'r ddyletswydd gonestrwydd.

Os bydd hyn yn digwydd, mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG wneud cofnod o ymdrechion i gysylltu neu gyfathrebu â'r Defnyddiwr Gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran ac yn darparu nad yw'n ofynnol iddo gyfathrebu ymhellach â'r Defnyddiwr Gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran ynglŷn â'r canlyniad andwyol hysbysadwy (h.y. y digwyddiad a arweiniodd at sbarduno'r ddyletswydd).

Cwestiwn 20

A yw'r darpariaethau yn rheoliad 7(3) yn gymesur? Y rhain sy'n caniatáu i sefydliad y GIG wneud cofnod o achos pan na fydd yn ymgysylltu â defnyddiwr gwasanaeth neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, naill ai oherwydd:

- (i) ei fod wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gysylltu â'r unigolyn ac wedi methu; neu**
- (ii) bod y defnyddiwr gwasanaeth wedi penderfynu nad yw'n dymuno i neb gyfathrebu ynglŷn â'r Ddyletswydd.**

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydyn’ yw’r ateb).

Cwestiwn 21

A yw rheoliadau 7(2) a 7(3) yn taro’r cydbwysedd cywir rhwng anghenion Defnyddwyr Gwasanaethau neu bersonau sy’n gweithredu ar eu rhan a lefel y baich a roddir ar sefydliadau’r GIG?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydyn’ yw’r ateb).

Mae rheoliad 4 o Reoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff GIG roi gwybod yn uniongyrchol i’r Defnyddiwr Gwasanaeth neu i rywun sy’n gweithredu ar ei ran. Rhaid i’r “hysbysiad uniongyrchol” gael ei wneud drwy “gyfathrebu’n uniongyrchol”. Diffinnir “cyfathrebu uniongyrchol” fel cyfathrebu drwy alwad ffôn, cyfarfod clyweledol neu gyfarfod wyneb yn wyneb. Cawsant eu llunio fel hyn yn dilyn adborth o’r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd.

Cwestiwn 22

Ydych chi’n cytuno bod rhoi gwybod ‘yn uniongyrchol’ yn ffordd briodol a chymesur o hysbysu defnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd bod y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei sbarduno?

Ydw

Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydw’ yw’r ateb).

Caiff y corff GIG ddewis pa un o’r opsiynau hyn yw’r un mwyaf priodol mewn unrhyw achos penodol. Mae’r Canllawiau yn pennu’r meini prawf i’w hystyried wrth wneud y penderfyniad hwn, megis dirifoldeb y niwed a achoswyd, natur a chymhlethdod yr hyn sydd wedi digwydd ac amgylchiadau personol y Defnyddiwr Gwasanaeth. Gall hyn hefyd gynnwys unrhyw gyfathrebu sydd eisoes wedi’i wneud â’r Defnyddiwr Gwasanaeth (neu’r sawl sy’n gweithredu ar ei ran) a’r dull cyfathrebu sydd orau ganddo.

Cwestiwn 23

Ydych chi'n cytuno ei bod yn briodol ac yn gymesur bod gan sefydliad y GIG ddewis o ran pa ddull o roi gwybod 'yn uniongyrchol' sydd fwyaf priodol, gan ystyried y ffactorau uchod?

Ydw

Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).

Wrth roi gwybod 'yn uniongyrchol', rhaid i'r corff GIG gyfleu'r wybodaeth a nodir yn rheoliad 4(3) sy'n golygu bod rhaid iddo wneud y canlynol:

- (a) rhoi disgrifiad, hyd eithaf ei allu, o amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy
- (b) esbonio pam mae'n credu bod y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno;
- (c) ymddiheuro;
- (d) rhoi enw a manylion cyswllt y person a enwebwyd fel y pwynt cyswllt ar gyfer y Defnyddiwr Gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran;
- (e) esbonio'r ymholiadau pellach a'r camau gweithredu y bydd y corff GIG (neu, os bydd gwasanaethau wedi'u comisiynu gan Gorff nad yw'n rhan o'r GIG, darparwr y gwasanaeth) yn ymgymryd â nhw i ymchwilio i amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy, neu i'w hadolygu, gan gynnwys unrhyw gamau a gaiff eu cymryd o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella,
- (f) manylion unrhyw wasanaethau neu gymorth y mae'r corff GIG yn credu'n rhesymol y gallant roi cymorth i'r Defnyddiwr Gwasanaeth neu'r sawl sy'n gweithredu ar ei ran, gan ystyried ei anghenion,
- (g) os yw'r hysbysiad uniongyrchol yn cael ei roi yn hwyrach na 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth corff GIG yn ymwybodol gyntaf o'r canlyniad andwyol hysbysadwy, esboniad o'r rheswm dros yr oedi

Mae rheoliad 13 yn nodi'n benodol nad yw ymddiheuriad neu gam arall a gymerir yn unol â'r weithdrefn gonestrwydd yn gyfystyr â chyfaddefiad o esgeulustod neu o dorri dyletswydd statudol. Mae'n bwysig pwysleisio'r pwynt na ddylai pryderon ynglŷn ag ymddiheuro fod yn rhwystr rhag gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd yn llwyddiannus.

Er mwyn helpu cyrff y GIG i ymddiheuro, mae'r Canllawiau yn Nogfen Amgaeedig 1 (adran 7e) yn rhoi rhagor o arweiniad i gyrrff y GIG ar sut i wneud ymddiheuriad personol, ystyrllon.

Cwestiwn 24

A yw'r canllawiau ar sut i wneud ymddiheuriad ystyrllon a nodir yn adran 7e ac Atodiad E y canllawiau, yn rhoi digon o wybodaeth a chyngor i sicrhau y caiff ymddiheuriad personol ac ystyrllon ei gyfleu?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydyn’ yw’r ateb).

Yn unol â rheoliad 5, rhaid i’r corff GIG roi gwybod yn ysgrifenedig ar ôl rhoi gwybod yn uniongyrchol. Y sail resymegol dros roi gwybod yn ysgrifenedig ar ôl rhoi gwybod yn uniongyrchol yw sicrhau bod gan y Defnyddiwr Gwasanaeth neu’r sawl sy’n gweithredu ar ei ran gofnod ysgrifenedig o’r hyn a drafodwyd a fydd yn ei helpu i ddeall y broses. Rhaid i’r corff GIG gymryd pob cam rhesymol i anfon yr hysbysiad ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl rhoi gwybod yn uniongyrchol.

Cwestiwn 25

Ydych chi’n cytuno y dylid rhoi gwybod yn ysgrifenedig ar ôl rhoi gwybod ‘yn uniongyrchol’?

Ydw

Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydw’ yw’r ateb).

Cwestiwn 26

Ydych chi’n cytuno bod y gofyniad ar sefydliadau’r GIG i gymryd pob cam rhesymol i anfon yr hysbysiad ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddyddiad yr hysbysiad llafar yn rhesymol ac yn gymesur?

Ydw

Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydw’ yw’r ateb).

Hyfforddiant a chymorth i staff

Mae rheoliad 8 yn manylu ar y gofynion ar gyfer rhoi hyfforddiant a chymorth i staff. Mae rheoliad 8(1) yn nodi pa staff y mae’n rhaid iddynt gael hyfforddiant ar y ddyletswydd gonestrwydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu deunyddiau hyfforddi ar y cyd â chydweithwyr o Bartneriaeth Cydwasanaethau’r GIG, a byddant ar gael ar-lein i gyrrff y GIG (gofal sylfaenol a gofal eilaidd). Nod yr hyfforddiant fydd sicrhau bod gan y rhai y bydd

angen iddynt wybod pryd y caiff y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno, a beth yw'r weithdrefn, yr wybodaeth a'r sgiliau i'w galluogi i gyflawni gofynion y ddyletswydd.

Y bobl y mae'n rhaid eu hyfforddi yw'r staff sy'n ymwneud â darparu gofal a thriniaeth; y rhai sy'n ymchwilio i "ganlyniadau andwyol" neu'n eu rheoli; ac unrhyw aelodau eraill o staff sy'n ymwneud â'r weithdrefn dyletswydd gonestrwydd. Mae rhagor o wybodaeth am y math o hyfforddiant a gaiff ei ddarparu (y bwriad yw cael hyfforddiant wedi'i raddio, er mwyn i staff gael hyfforddiant sy'n briodol i'w rolau wrth gyflawni'r ddyletswydd gonestrwydd) wedi'i nodi yn 7h o'r Canllawiau yn Nogfen Amgaaedig 1.

Mae rheoliad 8(2) yn darparu bod rhaid i gorff GIG sicrhau bod staff sy'n ymwneud â chanlyniad andwyol hysbysadwy yn cael manylion gwasanaethau y mae'r corff yn ymwybodol ohonynt a all roi cymorth i'r aelod o staff – gan ystyried amgylchiadau'r canlyniad andwyol hysbysadwy ac anghenion yr aelod o staff.

Cwestiwn 27

A yw'r gofynion hyfforddi'n cynnwys yr holl staff y mae angen hyfforddiant arny'n nhw?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Cwestiwn 28

Yn eich barn chi, pa fath o hyfforddiant y byddai angen i staff y GIG ei gael yn ychwanegol at hyfforddiant presennol y GIG er mwyn i'r Ddyletswydd Gonestrwydd fod yn llwyddiannus?

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach

Cwestiwn 29

A yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chymorth i staff yn gymesur

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai ‘Nac ydyn’ yw’r ateb).

Llywodraethiant sefydliadol a goruchwyllo’r Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae rheoliadau 10 ac 11 yn nodi’r gofynion ar gyfer goruchwyllo’r weithdrefn gonestrwydd. Cânt eu cynnwys er mwyn cynorthwyo gyrff y GIG i ddyfeisio strwythur llywodraethu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r ddyletswydd. Er cysondeb, mae’r darpariaethau wedi’u modelu’n agos ar y darpariaethau goruchwyllo presennol sydd wedi’u nodi yn y Rheoliadau Gweithio i Wella.

Mae rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddynodi unigolyn i fod yn gyfrifol am gynnal goruchwyliaeth strategol o weithrediad y weithdrefn gonestrwydd a nodir yn Rheoliadau’r Weithdrefn Gonestrwydd. Pan fo’r corff GIG yn fwrdd iechyd lleol, yn Ymddiriedolaeth neu’n Awdurdod Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â’i swyddogaethau yng Nghymru) rhaid i’r person fod yn rhywun nad yw’n swyddog, yn gyfarwyddwr anweithredol neu’n Aelod Annibynnol, fel y bo’n briodol.

Mae darparwyr Gofal Sylfaenol yn rhydd i ddewis pwy sydd fwyaf addas yn eu sefydliad i ymgymryd â’r rôl hon.

Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff GIG ddynodi Swyddog Gweithredol Cyfrifol i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 11(2) yn rhagnodi pwy y dylid ei benodi, ar gyfer pob “math” o gorff GIG. Yr egwyddor sylfaenol yw bod rhaid i’r Swyddog Gweithredol Cyfrifol fod yn rhywun mewn swydd ddigon uchel i sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau’r Rheoliadau yn ei sefydliad.

Mae rheoliad 11(3) yn caniatáu dirprwyo swyddogaethau'r Swyddog Cyfrifol i berson arall ar yr amod bod y person hwnnw o dan reolaeth a goruchwyliaeth uniongyrchol y Swyddog Cyfrifol.

Mae rheoliad 12 yn gosod terfynau ar ddatgelu gwybodaeth – gan nodi’n glir nad yw’r Rheoliadau Gweithdrefn Gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i gorff GIG ddatgelu unrhyw wybodaeth a fyddai’n amharu ar ymchwiliad neu erlyniad troseddol neu a fyddai’n mynd yn groes i unrhyw gyfyngiad ar ddatgelu sy’n codi yn rhinwedd deddfiad neu reol gyfreithiol. Er enghraifft, mae hyn yn golygu na fyddai’n rhaid i gorff GIG ryddhau gwybodaeth sydd ganddo yn unol â dyletswydd cyfrinachedd neu pe bai rhyddhau gwybodaeth o’r fath yn arwain dorri rheolau GDPR.

Cwestiwn 30

A yw Rheoliadau 10 ac 11 yn helpu sefydliadau'r GIG i sefydlu strwythur llywodraethu effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefn y Ddyletswydd Gonestrwydd?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Cwestiwn 31

A yw'r rheoliadau'n cynorthwyo sefydliad i roi'r lefel briodol o arweinyddiaeth er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd?

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Dyletswydd Gonestrwydd a'r weithdrefn Gweithio i Wella

Mae Rhan 8 o'r Canllawiau yn disgrifio sut mae'r adolygiad o'r amgylchiadau a arweiniodd at sbarduno'r ddyletswydd gonestrwydd a'r cysylltiad â phroses Gweithio i Wella yn gweithio mewn dilyniant. Mae'r Rheoliadau Gweithio i Wella eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff y GIG¹¹ ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion. Felly, nid oes dyblygu o ran ymchwilio oherwydd dylai digwyddiadau sy'n sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd eisoes fod yn destun ymchwiliad yn unol â'r broses Gweithio i Wella.

Mae Atodiad C ac F1 y Canllawiau hefyd yn rhoi trosolwg o'r weithdrefn gonestrwydd a'r broses adolygu er mwyn nodi'r camau y bydd angen eu dilyn.

Mae rheoliad 14 o'r Rheoliadau Gweithdrefn Gonestrwydd yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Gweithio i Wella sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Effaith y prif ddiwygiadau a nodir yn rheoliad 14(5), (6) ac (8), pan fo'r ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, yw bod y terfynau amser presennol yn rheoliadau 24, 26, 30 a 33 o'r Rheoliadau Gweithio i Wella yn cael eu hestyn i fod yn berthnasol o'r dyddiad y bydd corff GIG yn rhoi gwybod yn uniongyrchol, yn hytrach na'r dyddiad y cafodd y corff GIG wybod am y pryder. Y dyddiad hwn fyddai'r dyddiad y sylweddolodd fod digwyddiad sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi digwydd.

¹¹ Ar wahân i Awdurdod Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Caiff Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru eu hychwanegu at gwmpas y Rheoliadau Gweithio i Wella gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2023.

Y rheswm dros hyn yw yr ystyrid y byddai'n fanteisiol, yn sgil dyfodiad y ddyletswydd gonestrwydd, i'r corff GIG a'r Defnyddiwr Gwasanaeth/y person sy'n ei gynrychioli, pe bai'r terfynau amser ar gyfer ymchwilio a pharatoi adroddiadau yn dechrau o'r dyddiad y rhoddir gwybod yn uniongyrchol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r corff GIG a'r Defnyddiwr Gwasanaeth drafod yr hyn a ddigwyddodd cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Mewn gwirionedd, oherwydd yr angen i gorff GIG roi gwybod i'r Defnyddiwr Gwasanaeth/y sawl sy'n gweithredu ar ei ran pan ddaw i wybod am y tro cyntaf fod y ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei sbarduno, nid yw'n debygol y bydd yr oedi'n sylweddol.

Cwestiwn 32

Ydych chi'n cytuno y dylai'r terfynau amser o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella, pan gaiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno, ddechrau o'r dyddiad y rhoddir gwybod ar lafar yn hytrach na'r dyddiad y byddai Sefydliad y GIG wedi cael gwybod am y digwyddiad?

Ydw

Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).

Pennod 3

Diwygiadau Pellach i'r Rheoliadau Gweithio i Wella

Mae gan y Ddyletswydd Gonestrwydd lawer yn gyffredin â Gweithio i Wella. Weithiau bydd y cyfreithiau hyn yn gweithio gyda'i gilydd ac yn effeithio ar ei gilydd.

Oherwydd hyn, bydd angen gwneud rhai newidiadau i'r rheoliadau Gweithio i Wella, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio gyda'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Er enghraifft, mae Gweithio i Wella yn dweud y gallwch benderfynu peidio â dweud wrth rywun am niwed a achoswyd, os mai peidio â dweud wrtho sydd er ei fudd pennaf. Byddai angen i'r GIG gofnodi'r manylion o hyd, ac esbonio pam y penderfynwyd peidio â dweud wrth y person.

Nawr, mae Gweithio i Wella yn dweud bod rhaid dweud wrth yr unigolyn os aeth rhywbeth o'i le gyda'i ofal, yn unol â'r amcan sy'n sail i'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Ond nid oes angen i'r unigolyn fod yn rhan o'r broses na'r ymchwiliad, os mai dyna sydd orau iddo. Fel arfer, bydd pobl yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau. Ond weithiau gall hyn achosi mwy o straen neu niwed.

Cwestiwn 33

Ydych chi'n credu y bydd newid rheolau '**Gweithio i Wella**' fel hyn yn achosi problemau?

Er enghraifft, ydych chi'n credu y byddai'n well **peidio** â dweud wrth yr unigolyn beth sydd wedi digwydd **os** mai hynny sydd er ei fudd pennaf?

Ydw

Nac ydw

Ychwanegwch unrhyw feddyliau eraill sydd gennych yn y blwch.

Cwestiwn 34

A yw'r cysylltiad rhwng y Ddyletswydd Gonestrwydd a'r broses Gweithio i Wella yn glir yn y canllawiau ac yn Atodiad F1?

Ydy

Nac ydy

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydy' yw'r ateb).

Pennod 4

Diwygiadau a diweddariadau i'r Canllawiau Gweithio i Wella

Bwriedir i'r Canllawiau Gweithio i Wella roi cyngor a chymorth ymarferol i gyrff y GIG sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rheoliadau Gweithio i Wella a rhoi canllawiau i Ddefnyddwyr Gwasanaethau a'u heiriolwyr.

Fel y nodir uchod, mae rhai newidiadau wedi cael eu gwneud i'r Rheoliadau Gweithio i Wella yn sgil cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd, er enghraifft darparu, pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, y dylai'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar ymchwiliadau i ofal a thriniaeth ddechrau o'r dyddiad y rhoddir gwybod yn uniongyrchol o dan Reoliadau'r Weithdrefn Gonestrwydd¹².

Mae'r newidiadau i'r Canllawiau Gweithio i Wella hefyd yn adlewyrchu bod Rheoliadau Diwygio Gweithio i Wella 2023 yn ychwanegu Awdurdodau Iechyd Arbennig at y gyrff sydd o fewn cwmpas y Rheoliadau Gweithio i Wella. Yn 2011, pan gyhoeddwyd y rheoliadau Gweithio i Wella, nid oedd yr un Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru.

Caiff yr holl newidiadau yn y Rheoliadau Gweithio i Wella eu hadlewyrchu yn y Canllawiau Gweithio i Wella, yn ogystal â'r newidiadau canlyniadol yn rheoliad 14 o'r Rheoliadau Gweithdrefn Gonestrwydd.

Gan fod nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i'r Canllawiau Gweithio i Wella gael eu diwygio ddiwethaf, achubir ar y cyfle hefyd i'w diweddarau fel eu bod yn adlewyrchu'r arferion presennol o ran cydymffurfio â GDPR, er enghraifft, a chyflwyno trefniadau newydd fel Gwasanaeth yr Archwilwyr Meddygol.

Mae crynodeb o'r newidiadau a gaiff eu gwneud i'r Canllawiau **mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Rheoliadau Diwygio Gweithio i Wella** wedi'i atodi yn Nogfen Amgaaedig 4.

Cwestiwn 35

A yw'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau Gweithio i Wella mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Rheoliadau Diwygio Gweithio i Wella yn glir?

Ydyn

Nac ydyn

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydyn' yw'r ateb).

Cwestiwn 36

¹² Rheoliad 14 o'r Rheoliadau Gweithdrefn Gonestrwydd Statudol

Ydych chi'n credu bod y newidiadau a wneir i'r canllawiau Gweithio i Wella yn ddigon i egluro sut mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn rhyngweithio â'r gweithdrefnau Gweithio i Wella?

Ydw

Nac ydw

Rhowch unrhyw sylwadau neu esboniad pellach (yn enwedig os mai 'Nac ydw' yw'r ateb).

Pennod 5

Asesiadau Effaith Integredig

Mae rhoi ystyriaeth gadarn i wahaniaethau iechyd, ac asesu a deall sut mae'r polisïau rydym yn eu rhoi ar waith yn cael effaith wahanol neu anghymesur ar wahanol grwpiau, yn hanfodol i'r broses o lunio polisïau.

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi rhoi pwys mawr ar ystyried cydraddoldeb, gan gynnwys effaith y newidiadau hyn ar wahanol grwpiau, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹³.

O'r gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma, gan gynnwys ymgysylltu â grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel rhan o'n sesiynau i randdeiliaid a grwpiau ffocws, rydym o'r farn nad yw'r cynigion yn debygol o gael effaith negyddol uniongyrchol ar unrhyw grŵp penodol. Bydd y ddyletswydd gonestrwydd o fudd i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, gofynnir am ragor o wybodaeth am yr effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a byddant yn sail i benderfyniadau a wneir ynghylch y cynigion.

Mae ein hystyriaeth hyd yma yn awgrymu y gallai'r cynigion gael effaith anuniongyrchol anghymesur (ond nid effaith negyddol) ar bobl â nodweddion penodol – yn enwedig anabledd ac oedran. Y rheswm dros yr effaith anuniongyrchol hon yw bod pobl yn y grwpiau hyn yn rhyngweithio'n amlach â'r system gofal iechyd ac, felly, mae'n fwy tebygol y caiff y ddyletswydd gonestrwydd ei sbarduno. Yn ein tyb ni, byddai'r effaith anuniongyrchol hon yn un lesol.

Cwestiwn 37

Beth yw eich barn chi ar y ffordd y gallai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio ar y canlynol?

¹³ Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cyrchwyd yn <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>

- pobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010¹⁴;
- gwahaniaethau o ran iechyd; neu
- ar grwpiau agored i niwed yn ein cymdeithas.

Rhowch eich sylwadau yma:

Cwestiwn 38

Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er enghraifft, beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Rhowch eich sylwadau yma:

Cwestiwn 39

Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r polisi Dyletswydd Gonestrwydd arfaethedig gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Rhowch eich sylwadau yma:

Cwestiwn 40

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

Rhowch eich sylwadau yma:

¹⁴ Mae'r nodweddion canlynol yn nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010—oedran; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Opsiwn i ddynodi dinesydd neu Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn hytrach na sefydliad

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: